

Shelley Fairplay

CAMAC HARPS

TELYNAU VINING WALES·CYMRU



Deborah Henson-Conant

# Cardiff Camac Harp Weekend
# Penwythnos Telynau Camac Caerdydd



Gabriella Dall'Olio



Tara Minton



Ben Creighton Griffiths



## 4-5 March/Mawrth 2017

Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## EVENTS DIGWYDDIADAU

| EVENTS | DIGWYDDIADAU |
|---|---|
| Harp exhibition | Arddangosfa delynau |
| Concerts | Cyngherddau |
| Workshops | Gweithdai |
| Masterclass | Dosbarth meistr |
| Hands-on-harp for beginners | Dwylo ar y delyn i ddechreuwyr |



Eleanor Turner

PROGRAMME RHAGLEN

# Welcome!

Welcome to our third Cardiff Camac Harp Weekend.

At our 2015 weekend, world-famous harpist Deborah Henson-Conant joined us by live webcast from the States. This year, she will be with us in person! Deborah will lead two workshops and give our closing concert on the Sunday. We expect her events to be over-subscribed so please book early to avoid disappointment.



As well as DHC, we have another amazing array of talent. And there is something to suit all ages - children and adults; all grades - from complete starters to professional harpists; and all styles - from classical to jazz and traditional music.

Our Saturday evening concert this year will again feature two harpists: Gabriella Dall'Olio, Head of Harp at Trinity Laban Conservatoire of Music and Drama, will perform some of her favourite works for the harp with a little Welsh flavour. Our second half will feature the Tara Minton Trio in what promises to be an exciting finale to the day. If you haven't heard these two outstanding harpists before, don't miss this concert. You are in for a real treat!

Deborah Henson-Conant, Shelley Fairplay, Ben Creighton Griffiths, Tara Minton and Eleanor Turner will be leading a wide range of workshops, with opportunities for solo and ensemble playing. Gabriella Dall'Olio will give a masterclass for Grade 7+ students; this is free, but places for those wishing to perform are strictly limited so contact me early if you would like to put your name down.

As ever, we are indebted to our friends from Camac France for their unstinting support. We extend a warm welcome to Jakez François, Helen Leitner and Enric de Anciola. Once again, this year, we are able to offer owners of Camac harps free harp regulations by Camac's own technician; but places are limited so please book early (the first 10 slots are reserved for those booking a weekend/day ticket).

All the details are in the following pages. Please book by post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk

We hope you enjoy the weekend and look forward to welcoming you in person.

Best wishes

# Croeso!

Croeso i'n trydydd Penwythnos Telynau Camac Caerdydd.

Yn ystod ein penwythnos yn 2015 ymunodd y delynores fyd-enwog Deborah Henson-Conant â ni trwy weddarllediad fyw o'r Unol Daleithiau. Eleni bydd hi yma gyda ni ei hun! Bydd Deborah yn arwain dau weithdy ac yn cynnal ein cyngerdd i orffen y penwythnos ar y Dydd Sul. Disgwyliwn y bydd llawer o bobl am fynd i'w digwyddiadau hi felly archebwch yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

Yn ogystal â DHC, bydd pobl eraill â thalent anhygoel yn dod atom. A bydd rhywbeth at ddant pob oed - yn blant ac yn oedolion; pob gradd - o gychwynnwyr pur i delynorion proffesiynol; a phob dull - o'r clasurol i jazz a cherddoriaeth traddodiadol.

Unwaith eto yn ein cyngerdd ar y nos Sadwrn bydd dwy delynores yn ein diddanu: bydd Gabriella Dall'Olio, Pennaeth Telyn yn y Trinity Laban Conservatoire of Music and Drama, yn perfformio rhai o'i hoff weithiau i'r delyn gyda chydig o naws Gymreig. Yn yr ail hanner bydd y Triawd Tara Minton yn perfformio'r hyn fydd yn glo cyffrous i'r diwrnod. Os nad ydych wedi clywed y ddwy delynores ragorol hyn o'r blaen, peidiwch â cholli'r cyngerdd hwn. Cewch amser gwych yn bendant!

Bydd Deborah Henson-Conant, Shelley Fairplay, Ben Creighton Griffiths, Tara Minton ac Eleanor Turner yn arwain ystod eang o weithdai, gyda chyfleoedd i chwarae'n unigol neu mewn ensemble. Bydd Gabriella Dall'Olio yn rhoi dosbarth meistr i fyfyrwyr Gradd7+; mae hwn am ddim ond mae'r lleoedd ar gyfer y rhai sydd am berfformio yn gyfyngedig felly cysylltwch â mi'n gynnar os ydych am roi eich enw i lawr.

Unwaith eto rydym mewn dyled i'n cyfeillion o Camac Ffrainc am eu cefnogaeth ddibaid. Estynnwn groeso cynnes i Jakez François, Helen Leitner ac Enric de Anciola. Eto eleni gallwn gynnig cyfle di-dâl i berchnogion telynau Camac i weld technegydd Camac eu hunain a fydd yn cymhwyso'r delyn; ond mae'r lleoedd yn gyfyngedig felly archebwch yn gynnar (mae'r 10 lle cyntaf wedi eu neilltuo ar gyfer y rhai sy'n archebu tocyn penwythnos/dydd).

Ceir yr holl fanylion ar y tudalennau canlynol. Dylech archebu lle drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen amgaeëdig neu edrychwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r penwythnos ac edrychwn ymlaen at eich croesawu atom.

Cofion gorau

**Elen Vining**
Camac Harps Telynau Vining Wales/Cymru
029 2062 0900
info@camacharps.co.uk - www.camacharps.co.uk

# Concerts | Cyngherddau

Telynau Vining Harps are proud to present: | Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

Saturday, 4 March 2017 at 7.00pm / Dydd Sadwrn, 4 Mawrth 2017 am 7.00yh



## Gabriella Dall'Olio

From Bologna to Cardiff, via London, with Love! Favourite works for the harp with a little Welsh flavour.
Music by Rossini, Parish Alvars, John Thomas, Hindemith, Marson and others. Works inspired by Italian themes and persons, or written by friends!

O Bologna i Gaerdydd, a thrwy Lundain, â Chariad! Hoff weithiau i'r delyn gyda blas Gymreig.
Cerddoriaeth gan Rossini, Parish Alvars, John Thomas, Hindemith, Marson ac eraill. Gweithiau wedi eu hysbrydoli gan themâu ac unigolion Yr Eidal, neu wedi eu hysgrifennu gan ffrindiau!



## Triawd Tara Minton / Tara Minton Trio

Tara Minton is joined by Ed Babar (double bass) and Tom Early (drums) to perform their latest studio album "The Tides of Love" in a rare stripped back concert. The album will be performed from start to finish with Tara telling the stories that inspired each of the songs. The trio will explore the themes of love, loss and strength, all wrapped up in the ever present rhythm of the tides.
*"Tara is one of the leading contemporary harpists in Europe" Roslin Russell, Artistic Director of the Cambridge Jazz Festival*

Ymunir â Tara Minton gan Ed Babar (bas dwbl) a Tom Early (drymiau) i berfformio eu halbwm stiwdio ddiweddaraf "The Tides of Love" mewn cyngerdd prin heb effeithiau ychwanegol. Perfformir yr albwm o'r dechrau i'r diwedd gyda Tara yn dweud y straeon a ysbrydolodd pob un o'r caneuon. Bydd y triawd yn archwilio themâu cariad, colled a chryfder wedi eu lapio yn rhythm goroesol y llanw.
*"Mae Tara yn un o delynorion cyfoes blaengar Ewrop" Roslin Russell, Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Jazz Caergrawnt*

## Tickets/Tocynnau: £12

(£8 for senior citizens, students and children under 16)
(£8 i bobl hŷn, myfyrwyr a phlant o dan 16)

Book on-line at www.camacharps.co.uk or by telephone on 029 2062 0900.
Archebwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk neu drwy ffonio 029 2062 0900.

# Concerts | Cyngherddau

Telynau Vining Harps are proud to present:

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

Sunday, 5 March 2017 at 5.00pm / Dydd Sul, 5 Mawrth 2017 am 5.00yh



## Deborah Henson-Conant

**Deborah Henson-Conant is a GRAMMY®-Nominated composer, performer, singer, songwriter, storyteller and the legendary "DHC" behind the "DHC" electric harp from CAMAC Harps.** She's performed throughout the world, opened for Ray Charles at Tanglewood, toured as a rock harpist with guitarist Steve Vai and debuted her own original concertos with orchestras like the Boston Pops and the Pittsburgh Symphony. She's the harpist your parents never warned you about - the world's premiere electric harpist - and she straps on her harp, uses a looper pedal to create rhythmic soundscapes - then sings and plays music from Blues to Flamenco, telling stories from her life and travels. (Website: HipHarp.com)

**Mae Deborah Henson-Conant wedi ei henwebu am GRAMMY®, yn gyfansoddwr, perfformwraig, cantores, ysgrifennwr caneuon, yn dweud storïau a hi yw'r "DHC" chwedlonol tu ôl i'r delyn drydan "DHC" o Delynau CAMAC.** Mae wedi perfformio ar draws y byd, wedi agor cyngerdd Ray Charles yn Tanglewood, wedi teithio fel telynores roc gyda'r gitarydd Steve Vai ac wedi chwarae ei chonsiertos gwreiddiol ei hun am y tro cyntaf gyda cherddorfeydd megis y Boston Pops a Cherddorfa Symffoni Pittsburgh. Hi yw'r delynores na rybuddiodd eich rhieni chi amdani - prif delynores drydan y byd - mae'n strapio'i thelyn ar ei chorff, yn defnyddio pedal 'looper' i greu lluniau sain rhythmig - yna mae'n canu ac yn chwarae cerddoriaeth o'r Blŵs i Fflamenco, gan ddweud hanesion am ei bywyd a'i theithiau. (Gwefan: HipHarp.com)



## Tickets/Tocynnau: £12

(£8 for senior citizens, students and children under 16)
(£8 i bobl hŷn, myfyrwyr a phlant o dan 16)

Book on-line at www.camacharps.co.uk or by telephone on 029 2062 0900.
Archebwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk neu drwy ffonio 029 2062 0900.

# The tutors | Y tiwtoriaid

## Gabriella Dall'Olio

Gabriella Dall'Olio has inspired audiences with solo recitals and chamber music concerts throughout the world and has gained considerable international recognition and prizes. She has two highly-acclaimed solo CDs to her name on the Claves label as well as concertos, duos and chamber ensemble CD recordings. McMillan chamber CD was no.1 in the classical charts in the UK last year, and her Solo Recital on Claves won the critics' prize and 5 Diapason when released and hailed as '75 minutes of poetry.' Gabriella commissions and premieres new works and collaborates with leading composers. She recently recorded Tafreshipour's Concerto for harp and orchestra with the English Chamber Orchestra, which will be released later this year on Naxos. Gabriella collaborates regularly with some of the world's finest orchestras and conductors, such as the Chamber Orchestra of Europe, London Symphony Orchestra, Royal Opera House and the Berliner and Wiener Philharmonikern, under the batons of Jannsens, Mazel, Gergiev, Sir Colin Davis, Harnoncourt, Abbado, etc. Gabriella is a passionate and committed teacher and is Head of Harp Studies at Trinity Laban Conservatoire of Music and Drama, where she trains young generations of musicians for a demanding and rewarding profession. Gabriella studied harp in Italy, Germany and France with Pierre Jamet, Jacqueline Borot, Fabrice Pierre, Anna Loro and Giselle Herbert.



Mae Gabriella Dall'Olio wedi ysbrydoli cynulleidfaoedd gyda datganiadau unigol a chyngherddau cerddoriaeth siambr ledled y byd ac wedi ennill gwobrau a chydnabyddiaeth rhyngwladol sylweddol. Mae ganddi ddwy CD unigol gafodd ganmoliaeth uchel ar label Claves yn ogystal â recordiadau consiertos, deuawdau ac ensemble siambr. Roedd CD siambr McMillan yn rif 1 yn y siartiau clasurol yn y DU llynedd, ac enillodd ei Solo Recital ar Claves wobr y beirniaid a phan ryddhawyd 5 Diapason a honwyd ei fod yn '75 munud o farddoniaeth'. Mae Gabriella yn comisiynu ac yn chwarae gweithiau newydd am y tro cyntaf ac yn cydweithio â chyfansoddwyr blaenllaw. Yn ddiweddar recordiodd Concerto i'r delyn a cherddorfa gan Tafreshipour gyda'r English Chamber Orchestra, a ryddheir nes ymlaen eleni ar Naxos. Mae Gabriella'n cydweithio'n rheolaidd â rhai o gerddorfeydd ac arweinwyr gorau'r byd megis Cerddorfa Siambr Ewrop, Cerddorfa Symffoni Llundain, Y Tŷ Opera Brenhinol a'r Philharmonikern yn Berlin a Fiena, dan faton Jannsens, Mazel, Gergiev, Syr Colin Davis, Harnoncourt, Abbado, ac ati. Mae Gabriella yn addysgwr ymroddedig sy'n teimlo'n gryf am ei phwnc ac mae'n Bennaeth Astudiaethau'r Delyn yn y Trinity Laban Conservatoire of Music and Drama, ble mae hi'n hyfforddi cenedlaethau ifanc o gerddorion i fynd i broffesiwn llawn gofynion ond gwerth chweil. Astudiodd Gabriella y delyn yn yr Eidal, yr Almaen a Ffrainc gyda Pierre Jamet, Jacqueline Borot, Fabrice Pierre, Anna Loro a Giselle Herbert.



## Shelley Fairplay

Shelley Fairplay is a performer and teacher with over 15 years' experience teaching harp, harp ensembles and workshops for all ages. Her concert series The Three Strands: Passion, Sorrow and Joy was premiered in the UK in 2014, and her CD of the same name was released in 2015. Shelley's latest concert series HarpOSphere features her own original works along with her arrangements of popular, classic and traditional tunes. Her concerts include traditional playing alongside performances on electric harp with effects pedals including the popular looper. She has performed throughout the UK, and appeared in Europe and the USA as a soloist and alongside internationally renowned harpists including electric jazz harpist Deborah Henson-Conant. Her Dynamic Harps ensemble features both an adult and children's group, filled with harpists who enjoy learning and performing music from films, pop, shows, classical, jazz and Celtic genres. 2016 saw the launch of her brand new online harp courses for beginner harpists, START HARP. The three courses total 36 weeks of tuition on technique, note reading, improvisation and playing by ear taught via teaching videos, play-a-longs, sheet music, live online Q&A's and video homework submissions from students. The courses have (so far!) taught harpists in the UK, mainland Europe and across the pond in Canada and the USA.

Mae Shelley Fairplay yn berfformwraig ac athrawes gyda dros 15 mlynedd o brofiad yn addysgu'r delyn, ensemblau telyn a gweithdai i bob oed. Cafodd ei chyfres o gyngherddau The Three Strands: Passion, Sorrow and Joy ei pherfformio am y tro cyntaf yn y DU yn 2014, a rhyddhawyd ei CD o'r un enw yn 2015. Mae cyfres cyngherddau ddiweddaraf Shelley HarpOSphere yn dangos ei gweithiau gwreiddiol ei hun ynghyd â'i threfniannau o donau poblogaidd, clasurol a thraddodiadol. Mae ei chyngherddau'n cynnwys chwarae traddodiadol ochr yn ochr â pherfformiadau ar delyn drydan gyda phedalau ag effeithion yn cynnwys y 'looper' poblogaidd. Mae wedi perfformio ar draws y DU ac wedi ymddangos yn Ewrop a'r Unol Daleithiau fel unawdydd gyda thelynorion sy'n enwog yn rhyngwladol yn cynnwys y delynores jazz Deborah Henson-Conant. Mae ei ensemble Dynamic Harps yn amlygu grŵp i blant ac oedolion, gyda thelynorion sy'n mwynhau dysgu a pherfformio cerddoriaeth ffilm, pop, sioe, clasurol, jazz a Cheltaidd. Gwelodd 2016 lansiad ei chyrsiau telyn newydd ar-lein, START HARP, ar gyfer telynorion sy'n cychwyn. Ceir 36 wythnos o ddysgu am dechneg, darllen nodau, chwarae'n fyrfyfyr a chwarae â'r glust wedi eu haddysgu trwy fideos, chwarae ynghyd, cerddoriaeth ar bapur, Cwestiynau ac Ateb byw ar-lein a chyflwyniadau gwaith cartref ar fideo gan fyfyrwyr. Mae'r cyrsiau (hyd yma!) wedi addysgu telynorion yn y DU, Ewrop ac ar draws y môr yng Nghanada ac UDA.

# The tutors | Y tiwtoriaid

## Ben Creighton Griffiths

Ben Creighton Griffiths is an internationally performing harpist based in Cardiff. Although classically trained, Ben is in increasing demand for his electro-acoustic jazz harp work, covering many different genres and extensively using electronics to create unique performances. Ben's engagements include performances in Brazil, Canada, the Caribbean, Croatia, Czech Republic, France, Hungary, Italy, the Netherlands and Spain. Closer to home, Ben has performed as a soloist at the Edinburgh International Harp Festival, Wales International Harp Festival, Summer Harp Festival, Monmouth Festival, Ludlow Festival, Trinity Harp Festival, Derbyshire Harp Festival, Cardiff Camac Harp Weekend, East Anglia Harp Festival, Wall2Wall Jazz Festival, Cambridge Jazz Festival, Harp on Wight, Glasbury Arts Harp Summer School and the Vale Jazz Festival. Performances this year will include the World Harp Congress in Hong Kong, New Orleans Jazz & Pop Harp Weekend, and performances and tuition across Tennessee, USA. Ben releases his third studio album (1 Man Band) in February 2017 and will perform and record with Adrien Chevalier and Tatiana Eva Marie, members of Avalon Jazz Band from New York City.



Mae Ben Creighton Griffiths yn delynor sy'n perfformio'n rhyngwladol ac yn byw yng Nghaerdydd. Er iddo gael hyfforddiant glasurol mae Ben ar alw'n gynyddol i berfformio ei waith jazz electro-acwstig, sy'n cyfannu sawl genre ac sy'n defnyddio electroneg yn eang i greu perfformiadau unigryw. Mae Ben wedi perfformio yn Brasil, Canada, y Caribî, Croatia, Gweriniaeth Tsiec, Ffrainc, Hwngari, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd a Sbaen. Yn nes i adref, mae Ben wedi perfformio fel unawdydd yng Ngŵyl Delyn Ryngwladol Caeredin, Gŵyl Delyn Ryngwladol Cymru, Gŵyl Delyn yr Haf, Gŵyl Mynwy, Gŵyl Llwydlo, Gŵyl Delyn Trinity, Gŵyl Delyn Swydd Derby, Penwythnos Telyn Camac Caerdydd, Gŵyl Delyn East Anglia, Gŵyl Jazz Wall2Wall, Gŵyl Jazz Caergrawnt, Harp on Wight, Ysgol Haf I'r Delyn gan Celf Glas ar Wy a Gŵyl Jazz y Fro. Bydd perfformiadau eleni yn cynnwys Cynhadledd Telyn y Byd yn Hong Kong, Penwythnos Telyn Pop a Jazz New Orleans, a pherfformiadau ac addysgu ar draws Tennessee, UDA. Bydd Ben yn rhyddhau ei drydydd albwm stiwdio (1 Man Band) yn Chwefror 2017 a bydd yn perfformio a recordio gydag Adrien Chevalier a Tatiana Eva Marie, aelodau o Fand Jazz Avalon o Efrog Newydd.



Deborah Henson-Conant, known as 'DHC', is a Grammy-nominated electric harp virtuoso with a wicked sense of humour, a gutsy set of vocal chords and a theatrical flair. Her decades-long career as composer, performer and creative coach, is one of constant invention and reinvention and collaboration with symphonies, innovators and theatres to create new works and a new instrument, the 'DHC' electric body harp developed in collaboration with Camac Harps. A fiercely independent innovator, DHC has created her own path, composing musical theatre since the age of 12, learning classical harp in her early 20's, becoming the world's pre-eminent jazz harpist in her 30's, composing and premiering alternative harp concertos in her 40's, touring with a rock band in her 50's – and finally synthesizing virtuosity, improvisation and story into her own genre of impassioned original solo musical theatre. She is founder and creator of 'Hip Harp Academy' – an international online academy with a full-year curriculum in improvisation and creative repertoire development – and of 'Harness Your Muse', her group mentorship program for creative and career development. Learn more, including videos, audio, photos and blog at HipHarp.com

## Deborah Henson-Conant

Mae Deborah Henson-Conant, a adwaenir fel 'DHC', yn bencampwraig ar y delyn drydan, wedi ei henwebu am Grammy a chanddi hiwmor direidus, llais cryf a dawn theatrig. Mae ei gyrfa ddegawdau oed fel cyfansoddwraig, perfformwraig, ac hyfforddwraig creadigol, yn un o greu newyddbethau, ailgreu parhaus gyda cherddorfeydd symffoni, arloeswyr a theatrau i greu gweithiau newydd ac offeryn newydd, y delyn corff trydan 'DHC' a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Telynau Camac. Mae DHC yn ddyfeiswraig annibynnol benderfynol ac wedi creu ei llwybr ei hun, gan ddechrau cyfansoddi theatr gerdd yn 12 oed, dysgu'r delyn glasurol yn ei 20au cynnar, dod yn delynores jazz fyd-enwog yn ei 30au, cyfansoddi a pherfformio consiertos amgen i'r delyn yn ei 40au, teithio gyda band roc yn ei 50au - ac yn y pen draw yn cyfannu meistrolaeth, gweithiau byrfyfyr a stori i'w genre ei hun o theatr gerdd unigol wreiddiol angerddol. Hi yw sylfaenydd a chreawdwr 'Hip Harp Academy' - academi ar-lein rhyngwladol gyda chwricwlwm blwyddyn lawn ar chwarae'n fyrfyfyr a datblygu rhestr gweithiau creadigol- a 'Harness Your Muse', ei rhaglen mentora grŵp ar gyfer datblygu gyrfa a chreadigaeth. Dysgwch mwy, yn cynnwys fideos, clywedol, lluniau a blog yn HipHarp.com

# The tutors | Y tiwtoriaid

## Tara Minton

Tara Minton is a jazz harpist, vocalist and songwriter from Melbourne, Australia. She relocated to London in 2011 and has since carved out a career as one of the most innovative harpists in contemporary music. At home in the UK Tara has played concerts at Ronnie Scott's Upstairs, The Pizza Express Dean St, The Pheasantry, Brasserie Zédel, The Hidden Rooms, the Cambridge Jazz Festival and the London Eye! Tara's love for adventure lends itself to a life on the road and she tours regularly with her band, performing and conducting workshops in jazz harp and improvisation. So far, Tara has played shows in Ireland, Poland, Lithuania, Switzerland, France, Italy and Australia. Her debut UK album, The Tides of Love is out now and available to buy on her website: www.taraminton.com Tara is proudly endorsed by Camac Harps.

Mae Tara Minton yn delynores jazz, yn gantores, yn cyfansoddi caneuon ac yn hannu o Melbourne, Awstralia. Symudodd i Lundain yn 2011 ac ers hynny mae wedi creu gyrfa fel un o'r telynorion mwyaf arloesol mewn cerddoriaeth gyfoes. Adref yn y DU mae Tara wedi chwarae cyngherddau yn Ronnie Scott's Upstairs, Pizza Express Dean St, The Pheasantry, Brasserie Zédel, The Hidden Rooms, Gŵyl Jazz Caergrawnt a'r London Eye! Mae cariad Tara at antur yn gweddu'n wych i fywyd ar y ffordd ac mae'n teithio'n rheolaidd gyda'i band, yn perfformio a chynnal gweithdai mewn telyn jazz a chwarae'n fyrfyfyr. Hyd yma mae Tara wedi perfformio yn Yr Iwerddon, yng Ngwlad Pwyl, Lithiwania, Y Swisdir, Ffrainc, Yr Eidal ac Awstralia. Mae ei halbwm gyntaf un, The Tides of Love allan nawr ac ar gael i'w brynu ar ei gwefan: www.taraminton.com Mae Telynorion Camac yn falch iawn i gefnogi Tara.



…and with Tara in the Tara Minton Trio:

**Ed Babar** is highly in demand as a double bassist and bass guitarist, regularly touring the UK and Europe with a variety of projects. He has worked as a session musician on classical, jazz, folk and world music projects, as well as hosting a jazz night in Battersea and running music for the prestigious Annabel's chain of clubs. Ed and Tara have worked together for over three years and he has become an integral part of her original sound. You can find out more at www.edbabar.co.uk

…a gyda Tara yn y Triawd Tara Minton:

Mae galw mawr am **Ed Babar** fel chwaraewr bas dwbl a gitar fas ac mae'n teithio'n rheolaidd yn y DU ac Ewrop gydag amrywiaeth o brosiectau. Mae wedi gweithio fel cerddor sesiwn ar brosiectau clasurol, jazz, gwerin a cherddoriaeth fyd, yn ogystal â chynnal noson jazz yn Battersea a rhedeg cerddoriaeth yng nghadwyn clybiau enwog Annabel's. Mae Ed a Tara wedi gweithio gyda'i gilydd am dros dair blynedd ac mae e wedi dod yn rhan annatod o'i sain gwreiddiol hi. Gallwch ddarganfod mwy yn www.edbabar.co.uk

**Tom Early** is a freelance drummer and percussionist working on the UK jazz and show circuit. He is in demand as a versatile and hugely accomplished player. Tom owns and runs The Ashtead Jazz Club and The Lantern Jazz Club, two clubs showcasing musicians, vocalists and composers from around the world. Among many projects, Tom features in The Tim Boniface Band and The Tara Minton Quartet. You can find out more about these projects at www.tomearly.com

Mae **Tom Early** yn ddrymiwr ac yn offerynnwr taro yn gweithio ar ei liwt ei hun yng nghylchoedd sioeau a jazz y DU. Mae galw mawr amdano fel chwaraewr amryddawn a dawnus eithriadol. Mae Tom yn berchen ar ac yn rhedeg Clwb Jazz Ashtead a Chlwb Jazz The Lantern, dau glwb sy'n arddangos cerddorion, cantorion a chyfansoddwyr byd-eang. Ymysg llawer o brosiectau mae Tom yn ymddangos gyda The Tim Boniface Band a'r Tara Minton Quartet. Gallwch ddarganfod mwy am y prosiectau hyn yn www.tomearly.com

## Eleanor Turner

Eleanor's musical career began when, aged 15, she made her London concerto debut conducted by Daniel Harding, whilst studying with Daphne Boden at the Royal College of Music Junior Department. Later she studied with Alison Nicholls, winning awards including First Prize at the 2007 European Harp Competition and Second Prize in the 2011 Gaudeamus Interpreters Competition in Amsterdam (for contemporary music). Thanks to Camac Harps teaming Eleanor up with Deborah Henson-Conant for a creative project in Caernarfon, April 2010, Eleanor not only got the taste for electro-acoustic performing but also started a dynamic new phase in her career. An increase in confidence and freedom led to Eleanor's Wild Bird show, as well as performances in New Orleans (with the Louisiana Philharmonic Orchestra) and Sydney (at the World Harp Congress) under the baton of Deborah Henson-Conant herself! Eleanor loves to teach and share her experience with her students at Birmingham Conservatoire. She blends spoken word and dance with the harp, as well as composing music for concert, radio and theatre. Eleanor's current musical adventure - a collaboration with Balandino Di Donato: The Wood and The Water for electric harp, sound spatialisation and the Myo gesture-controlled armband - is, as its name suggests, perpetually evolving. What's next? A theatre show for children, perhaps? Flamenco dancing with DHC? Suggestions on postcards or visit Eleanor at eleanorturner.biz and get involved!



Cychwynnodd gyrfa gerddorol Eleanor pan, yn 15 oed, perfformiodd gonsierto am y tro cyntaf yn Llundain dan yr arweinydd Daniel Harding, tra'n astudio gyda Daphne Boden yn Adran Iau y Coleg Cerdd Brenhinol. Nes ymlaen astudiodd gydag Alison Nicholls, gan ennill gwobrau yn cynnwys y Wobr Gyntaf yng Nghystadleuaeth Telyn Ewrop yn 2007 ac Ail Wobr yng nghystadleuaeth Gaudeamus Interpreters yn Amsterdam (i gerddoriaeth gyfoes) yn 2011. Oherwydd bod Telynau Camac wedi cysylltu Eleanor â Deborah Henson-Conant i weithio ar brosiect creadigol yng Nghaernarfon yn Ebrill 2010, nid yn unig y cafodd Eleanor flas ar berfformio electro-acwstig ond hefyd dechreuodd hyn gyfnod newydd ddeinamig yn ei gyrfa. Arweiniodd cynnydd yn ei hyder a'i rhyddid at sioe Wild Bird gan Eleanor, yn ogystal â pherfformiadau yn New Orleans (gyda Cherddorfa Philharmonig Louisiana) a Sydney (yng Nghynhadledd Telyn y Byd) gyda Deborah Henson-Conant ei hun yn arwain! Mae Eleanor wrth ei bodd yn addysgu a rhannu ei phrofiadau gyda'i myfyrwyr yn y Birmingham Conservatoire. Mae hi'n plethu'r gair llafar gyda'r delyn, yn ogystal â chyfansoddi cerddoriaeth i gyngerdd, radio a theatr. Mae antur bresennol Eleanor - cydweithio â Balandino Di Donato: The Wood and The Water ar gyfer telyn drydan, gofodoldeb sain a'r band braich Myo a reolir gan ystum - sydd fel mae ei enw yn awgrymu, yn esblygu'n barhaol. Beth nesaf? Sioe theatr i blant, efallai? Dawnsio Fflamenco gyda DHC? Awgrymiadau ar gardiau post neu ymwelwch ag Eleanor yn eleanorturner.biz a chymerwch ran!

## Balandino Di Donato



Balandino began his academic studies at Conservatorio A.Casella in L'Aquila, Italy, where in 2013 he gained a BMus in Music Technology with a thesis on the use and software development for musical purposes. He has been working as a sound engineer for national and international productions across Europe and from 2007-2013, was involved as artistic and technical assistant at Centro Ricerche Musicali di Roma. He joined the Integra Lab at Birmingham Conservatoire to work on the development of a musician-minded application optimised for the process of experimentation, discovery, refinement and performance. After that, he completed a scholarship at Birmingham Conservatoire to realise his PhD research, leading him to develop a software to make the use of interactive technology easier, such as Myo Mapper (as used with Eleanor Turner). In 2015 he developed 'Interactive Cube' with funding from Music Bricks and in the same year, together with another researcher, formed Star Node, a group of musicians and researchers to work on musical performances and sound art installations. www.balandinodidonato.com

Cychwynnodd Balandino ei astudiaethau academaidd yn y Conservatorio A.Casella yn L'Aquila, Yr Eidal, ble yn 2013 enillodd BMus mewn Technoleg Cerdd gyda thraethawd hir ar ddefnydd a datblygiad meddalwedd at ddibenion cerddorol. Mae wedi bod yn gweithio fel peiriannydd sain ar gynyrchiadau cenedlaethol a rhyngwladol ar draws Ewrop ac o 2007-2013 roedd yn gynorthwy-ydd artistig a thechnegol yn Centro Ricerche Musicali di Roma. Ymunodd â'r Integra Lab yn Birmingham Conservatoire i weithio ar ddatblygu cymhwysiad â meddwl cerddor wedi ei optimeiddio ar gyfer y broses o arbrofi, darganfod, coethi a pherfformiad. Wedi hynny, cwblhaodd ysgoloriaeth yn Birmingham Conservatoire i wireddu ei ymchwil PhD, a'i harweiniodd at ddatblygu meddalwedd i wneud y defnydd o dechnoleg rhyngweithiol yn haws, megis y Myo Mapper (fel a ddefnyddir gydag Eleanor Turner). Yn 2015 datblygodd 'Interactive Cube' gydag arian gan Music Bricks ac yn yr un flwyddyn, ynghyd ag ymchwilydd arall, ffurfiodd Star Node, grŵp o gerddorion ac ymchwilwyr i weithio ar berfformiadau cerddorol a gosodiadau celf sain. www.balandinodidonato.com

# The classes: What's on offer?

# Y dosbarthiadau: Beth sydd ar gynnig?

## Saturday 4 March 2017 / Dydd Sadwrn 4 Mawrth 2017

| Class | Time/Amser | Guide/Canllaw |
|---|---|---|
| **Ben Creighton Griffiths - Preparation for performance**<br>Do you have a piece for a performance or exam coming up soon? Do you want an extra opinion about a favourite party piece? If so then bring it along to this class to go through with Ben and get some advice from his many years of performing experience! You can bring any piece of any genre (lever or pedal harp) for this informal session. | 09.00 - 11.00 | Grade/Gradd 1-4 |
| **Shelley Fairplay - Arranging 'Pop' for harp (double workshop)**<br>Do you like to play Pop songs? Come and learn key skills required to create your own harp arrangements using readily available PVG (Piano/Voice/Guitar) scores and recordings. What works best? How can you make the arrangement your own? Are there typical chord progressions and rhythms? What harp sounds and tricks can you use to create a Pop feel to your music? Can't find the sheet music? We will take a look at how you can use recordings/YouTube to work out your favourite song. Come along and open the door to a whole world of Pop music on the harp! | 09.00 - 11.00 and/ac 11.15 - 13.15 | Grade/Gradd 4+ |
